# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B - Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 14 Mehefin 2011** |
| Amser: | **08:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Peter Black**<br>**Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Nick Ramsay** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**<br>**Marion Stapleton, Llywodraeth Cymru**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad**<br>**Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion.

## 3. Trefn Busnes

### 3(i) Busnes yr wythnos hon

Nododd y Pwyllgor fusnes yr wythnos hon.

### 3(ii) Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3(iii) **Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Cytunodd y Pwyllgor ar Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 4. Pwyllgorau

### 4(i) **Sefydlu'r pwyllgorau a'u cylch gwaith**

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur yn cynnig dewisiadau ar gyfer sefydlu strwythur ar gyfer pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad. Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i sefydlu strwythur yn seiliedig ar y trydydd dewis a gyflwynwyd (sef, pwyllgorau i ymgymryd â gwaith deddfwriaeth a chraffu ar yr un pryd), yn amodol ar drafodaethau pellach.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ystyried teitlau a chylch gwaith y pwyllgorau yn ei gyfarfod ar 21 Mehefin. Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor y dylid atal y Rheolau Sefydlog er mwyn caniatáu'r cynigion i sefydlu pwyllgorau i gael eu trafod ddydd Mercher 22 Mehefin, gan gynnwys y cynnig i sefydlu Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i adolygu sut mae'r strwythur yn gweithio ymhen rhyw 12 mis.

### 4(ii) **Sefydlu Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'i swyddogaethau**

Nododd y Pwyllgor Busnes lythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru ynghylch strwythur y pwyllgorau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad, a chytunodd i ymateb iddo.

### 4(iii) **Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru**

Nododd y Pwyllgor Busnes lythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru ynghylch strwythur y pwyllgorau yn y Pedwerydd Cynulliad a chytunodd i anfon ateb ato.